# Y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau

## Cofnodion EIN(2) 07-06

### Dyddiad y cyfarfod: 18 Hydref 2006
### Amser y cyfarfod: 9.00 – 12.45
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd, Bae Caerdydd

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Andrew Davies (Gweinidog) | Gorllewin Abertawe |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Alun Ffred Jones | Caernarfon |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Kirsty Williams | Brycheiniog a Sir Faesyfed |

#### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Michael Eaton | Pennaeth Isadran e-Gymru |
| David Fletcher | Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol |
| Gareth Hall | Cyfarwyddwr yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau |
| Paul Harrison | Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol |
| Tim James | Pennaeth yr Uned Rheilffyrdd |
| Robin Shaw | Cyfarwyddwr Trafnidiaeth Cymru |

## Eraill yn Bresennol

| **Enw** | **Sefydliad** |
|---|---|
| Robbie Burns | Cyfarwyddwr, Llwybr y Gorllewin, Network Rail |
| Mike Gallop | Rheolwr Gwella Llwybrau, Network Rail |
| Bob Holland | Rheolwr Gyfarwyddwr, Trenau Arriva Cymru |
| Mike Hurley | Pennaeth Rheoli Masnachfreintiau a Deiliaid Diddordeb, Trenau Arriva Cymru |
| Paul Plummer | Cyfarwyddwr,Cynllunio a Rheoleiddio, Network Rail |

## Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Claire Morris | Clerc |
| Abigail Phillips | Dirprwy Glerc |
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

1.2 Mae cofnod gair-am-air o’r cyfarfod ar gael.

## Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog
## Papur: EIN(2) 08-06 (p1)- Adroddiad y Gweinidog

2.1 Clywodd y Pwyllgor am y sefyllfa ddiweddaraf gan y Gweinidog

## Pwyntiau Gweithredu:

- Byddai’r Cadeirydd yn anfon llythyr o ddiolch at Keith Brooks, cyn Gadeirydd y Panel Cynghori ar Dwristiaeth, ar ran y Pwyllgor.
- Byddai’r Gweinidog yn darparu nodyn i’r Pwyllgor ynghylch y dechnoleg a ddefnyddir yn Inetec Cyf, Pen-y-bont ar Ogwr

- Byddai’r Gweinidog yn darparu nodyn yn rhoi manylion ynghylch y cynlluniau penodol a’r cyllid mewn perthynas ?146;r Astudiaeth o Ynni’r Llanw yn Aber Hafren, a’r meini prawf amgylcheddol a ddefnyddiwyd.
- Byddai’r Gweinidog yn ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad i ofyn am wybodaeth ynghylch y materion eco-gyfeillgar mewn perthynas ? physgota am siarcod yng Nghymru.
- Byddai’r Gweinidog yn darparu gwybodaeth ynghylch newidiadau yn yr uwch reolwyr yn y Bathdy Brenhinol.

**Eitem 3: Network Rail a Threnau Arriva**
**Papur: EIN(2) 08-06 (p2)**
**EIN(2) 08-06 (p3a)**
**EIN(2) 08-06 (p3b)**

3.1 Bu’r Pwyllgor yn trafod perfformiad yn erbyn y fasnachfraint; yr amserlen ddrafft ar gyfer mis Rhagfyr 2006 a Chynllun Busnes Network Rail gyda chynrychiolwyr o Drenau Arriva Cymru a Network Rail.

**Pwyntiau Gweithredu:**

- Byddai Network Rail yn rhannu canlyniadau eu hastudiaeth o adroddiad Atkin a manylion am y costau yr oeddynt yn eu cydnabod o’r adroddiad hwnnw mewn perthynas ?146;r gost o ddatblygu cyfleusterau cludiant rheilffyrdd i gludo gwastraff llechi ar y rheilffordd o Flaenau Ffestiniog ar hyd lein Ddyffryn Conwy erbyn diwedd y flwyddyn.
- Byddai Network Rail yn darparu nodyn ar y modd y gwnaethant gysylltu ?146;r cyhoedd ynghylch lleoli mastiau signalu.

**Eitem 4: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a Materion yn Codi**
**Papur: EIN(2) 06-06 – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi**
**EIN(2) 08-06 – Camau heb eu Cymryd**

4.1 Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi fel cofnod cywir.

**Eitem 5: Rhestr Is-ddeddfwriaethau**
**Papur: EIN(2) 08-06 (p4)**

5.1 Cytunodd y pwyllgor y byddai’n craffu ar y gorchymyn diwygiadau canlyniadol drafft sydd i’w wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 160 Deddf Llywodraeth Cymru a fyddai’n diwygio’r Mesur Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol i ystyried effaith Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Pwyntiau Gweithredu:**

- Byddai’r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i roi gwybod am fwriad y Pwyllgor i graffu ar y gorchymyn drafft.

**Eitem 6: Tuag at e-Gymru – Ymgynghoriad ar Ddefnyddio Grym Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yng Nghymru**
**Papur: EIN(2) 08-06 (p5)**

6.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried y strategaeth ddrafft.

6.2 Cytunodd Aelodau i ddychwelyd at y pwnc, yn wyneb yr ymateb i'r ymgynghoriad, mewn pryd i ddylanwadu ar y drafft terfynol.

**Pwyntiau Gweithredu:**

- Byddai'r Clerc yn drafftio llythyr yn crynhoi sylwadau'r Pwyllgor.

**Eitem 7: Ymgynghoriad ar Gynigion ar gyfer Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach Cymru Gyfan**
**Papur: EIN(2) 08-06 (p6)**

7.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried y cynnig i gynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach gymryd lle'r cynllun rhyddhad ardrethi gwledig ar gyfer Cymru gyfan.

**Pwyntiau Gweithredu:**

- Byddai'r Clerc yn drafftio llythyr yn crynhoi sylwadau'r Pwyllgor.

**Eitem 8: Dadansoddi Galw am Gyflymder Ffibr**
**Papur: EIN(2) 08-06 (p7)**

8.1 Cafodd yr eitem hon ei gohirio hyd at gyfarfod arall yn y dyfodol.